# Rhyddhau o'r ysbyty a'i effaith ar lif cleifion drwy ysbytai



BASW Cymru

Y gymdeithas i waith cymdeithasol a gweithwyr cymdeithasol

Cymdeithas Brydeinig Gweithwyr Cymdeithasol yw'r sefydliad aelodaeth broffesiynol ar gyfer gwaith cymdeithasol. Gydag aelodaeth o dros 22000, rydym yn llais annibynnol ar gyfer gwaith cymdeithasol sy'n hyrwyddo gwaith cymdeithasol ac yn helpu ei haelodau i gyflawni'r safonau proffesiynol uchaf. Ein Gweledigaeth pum mlynedd ar gyfer 2020 - 2025 yw "Bydd gwaith cymdeithasol yn broffesiwn ffyniannus, dylanwadol sy'n cael ei pharchu, yn gwella bywydau ac yn cynnal hawliau pobl ar draws y DU."

Mae Cenhadaeth ein sefydliad yn egluro beth rydym yn ei wneud, pam rydym yn ei wneud ac ar gyfer pwy:

**Mae BASW yn gweithredu ...**

- **Dros weithwyr cymdeithasol:** Yn cefnogi, diogelu ac yn ysbrydoli gweithwyr cymdeithasol ym mhob rôl, a'r cenedlaethau nesaf o weithwyr proffesiynol.
- **Dros waith cymdeithasol:** Datblygu moeseg, ymarferiadau, gwybodaeth, ymchwil a dysg broffesiynol.
- **Dros well gymdeithas:** Siarad ar ran gwaith cymdeithasol a gweithwyr cymdeithasol ar gyfiawnder cymdeithasol, cydraddoldeb, tlodi, hawliau dynol, gormes, a materion cymdeithasol hanfodol eraill yn y DU ac yn rhyngwladol.



## Maint y sefyllfa bresennol gydag oedi wrth drosglwyddo gofal o'r ysbyty

Mae'r siart isod yn rhoi cipolwg o'r oedi wrth drosglwyddo gofal i'r ddau lwybr adferiad a'r rhai oedd yn osgoi llwybrau adferiad rhwng 10/07/2020 a 30/11/2021. https://statswales.gov.wales/catalogue/health-and-social-care/nhs-performance/delayed-transfers-of-care

**Tabl 1**

| Dyddiad | Math 1 | Math 2 | Math 3 | Cyfanswm Oediadau |
|---|---|---|---|---|
| | Pobl sy'n aros i gael eu trosglwyddo o'r ysbyty i lwybrau adfer | Pobl sy'n aros i gael eu trosglwyddo o lwybrau adfer ac ymlaen i ofal tymor hwy | Pobl sy'n aros i gael eu trosglwyddo o'r ysbyty i ofal tymor hwy, gan osgoi llwybrau adfer | |
| 10/07/2020 | 327 | 289 | 26 | 642 |
| 30/11/2021 | 328 | 527 | 213 | 1,068 |

Mae'n bwysig nodi bod y niferoedd ym mhob categori wedi gostwng a chynyddu dros yr amserlen berthnasol. Ym mis Tachwedd 2021 roedd y niferoedd oedd yn aros i gael eu trosglwyddo o'r ysbyty i'r llwybr adferiad bron yr un fath. Fodd bynnag, mae'r niferoedd sy'n aros i gael eu trosglwyddo allan o lwybrau adfer ac ymlaen i ofal tymor hwy, neu'n aros i gael eu trosglwyddo o'r ysbyty i ofal tymor hwy, gan osgoi llwybrau adfer, wedi cynyddu'n sylweddol. Mae'r oedi hwn i ofal tymor hwy yn cynnwys pobl sydd â chyflyrau iechyd cymhleth nad ydynt yn ddwys ac yn anffodus, y rhai dylent fod ar lwybr gofal lliniarol ac a ddylent fod yn cael gofal diwedd oes.

Mae pob oedi wrth drosglwyddo yn cynrychioli person go iawn nad yw'n cael gofal na chymorth yn y lle iawn ac y mae'r potensial i elwa ar lwybr adfer, i ddychwelyd adref, neu i setlo mewn lleoliad gofal hirdymor yn cael ei beryglu mewn cyfrannedd union â maint yr amser sy'n cael ei dreulio mewn lleoliad ysbyty dwys. Mae ymchwil Antonio Rojas-Garcia et al yn 2018 www.ncbi.nlm.nih.gov/pmc/articles/PMC5750749 yn awgrymu bod 'effeithiau andwyol oedi wrth ryddhau cleifion yn uniongyrchol (drwy fwy o siawns i gleifion gael salwch y gellir ei osgoi), ac yn anuniongyrchol, yn ail , y pwysau a roddir ar staff.' Mae hyn yn cael ei ymhelaethu mewn pobl hŷn lle mae pob diwrnod ychwanegol yn yr ysbyty yn ychwanegu risgiau o ddirywiad gweithredol. Gwyddom eisoes fod nifer fawr o gleifion ysbyty wedi datblygu haint Covid 19 a gafwyd yn yr ysbyty, sef 1% o'r holl heintiau Covid 19 ac mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo 4.5 miliwn i ymchwilio i heintiau a gafwyd yn yr ysbyty a dysgu ohonynt. https://media.service.gov.wales/ news/more-than-gbp-4-5m-to-investigate-and-learn-from-hospital-acquired-covid-19-infections-in-wales Rydym hefyd yn ymwybodol iawn o'r pwysau a roddwyd ar staff rheng flaen y GIG drwy gydol y pandemig.

Nid ysbyty yw'r amgylchedd cywir i bobl wneud penderfyniadau hirdymor am eu hanghenion gofal a chymorth parhaus, a dylid cynnal asesiadau yn y cartref gyda theuluoedd, gofalwyr neu eiriolwyr, ar ôl ail-alluogi neu adsefydlu os oes angen.

Mae ein haelodau'n son am oedi wrth drosglwyddo gofal ar raddfa nad oeddent wedi'i phrofi'n flaenorol, ac fe ategir hyn gan y data yn Nhabl 1.

## Effaith oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty, ar yr unigolyn ac ar y llif cleifion drwy ysbytai a'r pwysau ar wasanaethau

Dywedodd un o'n haelodau wrthym yn ddiweddar bod y sefyllfa bresennol y gwaethaf ers 30 mlynedd o fod yn weithiwr cymdeithasol. Pan gynhelir asesiadau, fe welir nad oes lleoedd mewn cartrefi gofal neu fod gofal cartref ddim ar gael. Dywedodd un aelod fod asiantaethau gofal cartref yn trosglwyddo atgyfeiriadau yn ôl gan nad oes ganddynt ddigon o staff i gwrdd â'r galw. Mae'r ffactorau hyn yn cynyddu'r risg o gadw cleifion mewn sefydliadu meddygol, colli hyder a chymhelliant i symud ymlaen, sydd yn ei dro, yn cynyddu'r pwysau ar ofalwyr di-dâl i gamu i mewn.

Mae oedi wrth drosglwyddo o leoliad gofal i gartref, unwaith y bydd yr asesiad wedi'i gwblhau, yn golygu bod llai o le ar gael am drosglwyddiad am asesiad mewn cartrefi gofal, neu ar gyfer gofal hirdymor, o fod mewn ysbyty.

Mae ein haelodau wedi dweud wrthym y bu adegau pan nad oedd gweithwyr cymdeithasol wedi gallu cael mynediad i wardiau yn ystod y pandemig oherwydd nad oeddent yn staff 'clinigol'. Mae ein haelodau wedi teimlo nad oedd eu rôl hanfodol wrth gefnogi pontio moesegol o ysbyty i leoliad mwy priodol, yn enwedig yn ystod cyfnodau cloi, bob amser wedi'i hintegreiddio'n llawn i ganllawiau traws heintio. Mae gweithwyr cymdeithasol yn elfen hanfodol o'r gweithlu amlddisgyblaethol.

Mae salwch ymhlith gweithwyr cymdeithasol mewn rhai timau gwaith cymdeithasol ysbytai wedi effeithio'n glir ar amseroldeb yr asesiadau sy'n cael eu cynnal.

Mae effaith gweithio o adref ar y gallu i gynnal asesiadau yn gyson ac yn gadarn wedi bod yn destun pryder i rai o'n haelodau. Mae peth o hyn yn ymwneud ag argaeledd dyfeisiau i gleifion, argaeledd staff nyrsio a staff cymorth i gefnogi'r asesiadau hyn o bell a diffyg mannau preifat i gleifion siarad am faterion cyfrinachol a theuluol. Mae cynnal asesiadau o bell yn heriol ar yr adegau gorau ac mae hyn yn waeth pan fydd gan glaf sy'n cael ei asesu nam gwybyddol neu synhwyraidd, yn enwedig pan nad yw teulu neu eiriolwyr wedi gallu cefnogi'r broses oherwydd cyfyngiadau Covid. Mae gweithwyr cymdeithasol yn pryderu bod hawliau cleifion o'r fath yn cael eu peryglu, oherwydd nid yw eu gallu i gyfranogi'n llawn bob amser yn gallu cael ei wireddu, er gwaethaf bwriadau gorau gweithwyr cymdeithasol a staff iechyd sy'n ceisio cefnogi'r broses. Mae pobl angen cael dewis a rheolaeth fel bod cymorth yn cael ei greu o amgylch eu cryfderau, eu rhwydweithiau cymorth eu hunain, ac adnoddau (asedau) y gellir eu hymgasglu o'r gymuned leol.

## Yr amrywiadau mewn arferion rhyddhau o ysbytai ledled Cymru ac ar draws y ffin, a sut y maent yn diwallu anghenion gofal a chymorth unigolion

Mae dull cyson sy'n cael ei gyd-gynhyrchu ac sy'n seiliedig ar hawliau, yn hanfodol. Ar adegau, mae ein haelodau'n teimlo fod y dulliau a'r gwerthoedd hyn wedi bod yn un o bethau anffodus y pandemig, gyda dewis y cleifion yn brif bryder.

Gall dulliau fel 'Rhyddhau i Asesu' feithrin mwy o gysondeb a lleihau amrywiadau lleol ond ni fyddant yn cyflawni ei nod sylfaenol hyd nes yr eir i'r afael â materion yn ymwneud a maint a'r gweithlu.

## Y gefnogaeth, cymorth a chyngor sydd ar gael i deuluoedd a gofalwyr di-dâl yn ystod y broses

Mae ein haelodau wedi profi bod pwysau cynyddol ar ofalwyr di-dâl wrth iddynt gymryd y gofal am aelodau o'r teulu. Gall hyn arwain at flinder y gofalwyr a methiant y trefniadau gofal gan olygu y gallai'r person sy'n derbyn gofal ddychwelyd i'r ysbyty, gan nad oes unrhyw ddewisiadau eraill ar gael. Mae'n bosibl y gallai hyn hefyd arwain at bryderon diogelu drwy'r straen ar ofalwyr.

Gwyddom drwy Track the Act Gofalwyr Cymru www.lukeclements.co.uk/track-the-act nad yw gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 wedi gwella bywyd gofalwyr di-dâl yng Nghymru

ac nid arweiniodd at gynnydd mewn asesiadau gofalwyr, a hyn cyn y pandemig, ac nid yw'r sefyllfa ar gyfer gofalwyr di-dâl wedi gwella yn ystod y pandemig, ac mae'r baich wedi cynyddu. Rhaid rhoi sylw i'r anghenion parhaus a'r gefnogaeth a gynigir i ofalwyr di-dâl er mwyn sicrhau ymarferoldeb a chynaliadwyedd.

## Beth sydd ei angen i alluogi pobl i ddychwelyd adref ar yr adeg gywir, gyda'r gofal a'r cymorth cywir yn eu lle, gan gynnwys mynediad at wasanaethau Ail-alluogi ac ystyried anghenion tai?

Rhaid mynd i'r afael â'r argyfwng recriwtio a chadw staff gwaith cymdeithasol a gofal cymdeithasol ynghyd â chymorth parhaus am lesiant gweithlu sydd o dan straen a phwysau digynsail.

Mae angen dileu gwahaniaethau di-fudd rhwng staff clinigol ac anghlinigol er mwyn i gleifion elwa ar weithlu iechyd a gofal cymdeithasol integredig, gan weithio ar y cyd i gefnogi trosglwyddiad amserol a moesegol o'r ysbyty.

Mae angen derbyn eiriolwyr teulu a / neu broffesiynol i fod yn rhan hanfodol o'r tîm amlddisgyblaethol ac iddynt ddeall eu rôl hanfodol wrth gefnogi llais a dewis y claf.

Mewn achosion lle mae cleifion yn byw y tu allan i dai brics a morter, er enghraifft Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw mewn trelars, mae angen dulliau mwy creadigol a hyblyg o addasu trelars i'r rhai sydd am ddychwelyd i'w cartrefi, gan fyw mewn ffordd sy'n gyson â hunaniaeth ac ethnigrwydd. Y perygl yw y gallai Sipsiwn a Theithwyr gael eu gorfodi i lety brics a morter gyda chanlyniadau dinistriol i'w hunaniaeth a'u hiechyd meddwl.

Rhaid mynd i'r afael â phryderon darparwyr cartrefi gofal ynghylch ymarferoldeb a chostau cynyddol, yn ogystal â phryderon am rwymedigaethau cytundebol ar gyfer lefelau staffio a gweithgareddau, cynllunio wrth gefn a sut i rannu risg gyda chomisiynwyr.

**Allison Hulmes**
**Cyfarwyddwraig Genedlaethol Cymru**
**BASW Cymru**



BASW Cymru

Y gymdeithas i waith cymdeithasol
a gweithwyr cymdeithasol

www.basw.co.uk/wales